Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adolygiad o Dystiolaeth: Cynnwys dinasyddion yn y gwaith o ddrafftio datganiad o egwyddorion cyfansoddiadol a llywodraethu i Gymru

Comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gais y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth

Chwefror 2026

Awdur: Alex Prior (Prifysgol South Bank Llundain)

# Cynnwys

Crynodeb Gweithredol .......... 3

1. Pam cynnwys dinasyddion mewn prosesau cyfansoddiadol? .......... 4

2. Llunio cyfansoddiadau'n gyfranogol ledled y byd: tueddiadau ac enghreifftiau .......... 8

3. Dulliau cyfranogol a chydgynghorol .......... 13

4. Cyfleoedd a heriau .......... 16

5. Effaith ar ddinasyddion .......... 20

6. Argymhellion ar gyfer cynnwys dinasyddion mewn datganiad o werthoedd ac egwyddorion cyfansoddiadol .......... 22

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adolygiad o dystiolaeth hwn yn trafod beth all Cymru ei ddysgu oddi wrth brofiadau o greu cyfansoddiadau cyfranogol ledled y byd, i lywio ei gyngor i Lywodraeth Cymru ar brosiect sy'n cynnwys dinasyddion yn y gwaith o ddatblygu datganiad o egwyddorion cyfansoddiadol a llywodraethu?

> *Mae'n hanfodol ein bod yn dysgu drwy wrando ar brofiadau rhyngwladol o sut mae goresgyn [yr heriau rhag democratiaeth]. Rydym yn credu bod gan Gymru y potensial i greu diwylliant sy'n fwy cadarn yn ddemocrataidd, i fod yn ddemocratiaeth eang, drwy fecanweithiau ymgysylltu arloesol sy'n cyfoethogi gwaith cynrychiolwyr etholedig.*[1]

Mae'r geiriau hyn – a gymerwyd o Adroddiad Terfynol y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru – yn atgyfnerthu gwerth dysgu gwersi oddi wrth wledydd eraill ledled y byd a fu'n creu cyfansoddiadau cyfranogol.

Mae'r gwersi hyn yn berthnasol i unrhyw gyd-destun, a rhoddant gefndir i'r adroddiad hwn. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi cyngor wedi'i dargedu i'r Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth (IDAG), i lywio ei gyngor i Lywodraeth Cymru ar gynnwys dinasyddion yn y gwaith o greu datganiad o egwyddorion cyfansoddiadol a llywodraethu. Mae'n rhoi sylw i'r themâu canlynol:

1. Dadleuon o blaid ac yn erbyn cynnwys dinasyddion mewn prosesau cyfansoddiadol.
2. Tueddiadau ac enghreifftiau mewn perthynas â chreu cyfansoddiadau cyfranogol ledled y byd.
3. Dulliau cyfranogol a chydgynghorol o gynnwys dinasyddion.
4. Cyfleoedd a heriau ar gyfer cynnwys dinasyddion mewn prosesau cyfansoddiadol.
5. Yr effaith y mae cymryd rhan mewn prosesau cyfansoddiadol yn ei chael ar ddinasyddion.
6. Cynnwys dinasyddion yn y gwaith o ddatblygu datganiad o werthoedd ac egwyddorion cyfansoddiadol: egwyddorion cyffredinol ac argymhellion penodol i IDAG eu hystyried.

Ar ôl rhoi sylw i'r themâu hyn, gallwn sefydlu argymhellion ar gyfer cynnwys dinasyddion mewn datganiad o werthoedd ac egwyddorion cyfansoddiadol. Mae'r argymhellion hyn yn cynnwys:

1. Ystyried a ddylid cynnwys cyfranogiad y cyhoedd mewn prosesau cyfansoddiadol, nid dim ond ystyried sut.
2. Cyfuno cyfranogiad gyda chynhwysiant a chydgynghori.
3. Cydlynu mewnbwn y cyhoedd a chefnogaeth y pleidiau.
4. Ystyried effaith y broses ar ddinasyddion, nid dim ond effaith dinasyddion ar y broses.

1 Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru (2024). *Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: adroddiad terfynol*, t.3.

# 1. Pam cynnwys dinasyddion mewn prosesau cyfansoddiadol?

Mae "cyfranogiad y cyhoedd" wedi dod yn "nodwedd hollbresennol bron o brosesau llunio cyfansoddiadau"[2], i'r graddau mai'r "cwestiwn allweddol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yw nid a ddylid cynnwys y cyhoedd, ond sut a phryd i'w cynnwys ac ym mha ffyrdd".[3]

Serch hynny, ceir cryn ddadlau o hyd ynghylch pa wahaniaeth y mae cyfranogiad yn ei wneud i gyfansoddiad, ac i ddemocratiaeth yn ehangach. Mae nifer o astudiaethau empirig yn gweld "dim cysylltiadau achosol penodol rhwng cyfranogiad y cyhoedd yn y broses o greu cyfansoddiad ac ansawdd uwch democratiaeth, lefelau diogelu hawliau uwch, na mwy o ymlyniad at y cyfansoddiad ymysg y bobl".[4]

Mae maint mewnbwn uniongyrchol y cyhoedd i destun cyfansoddiadol hefyd yn amrywio'n fawr. Er enghraifft, "ym mhroses 2011 Gwlad yr Iâ … 10% o'r cyflwyniadau gan y cyhoedd wnaeth arwain at newid yn y cyfansoddiad drafft".[5] Cydnabyddir bod hon yn gyfradd eithaf isel ond mae'n dal i fod yn arwyddocaol ac yn debygol o fod yn "uwch nag y byddai llawer o arsylwyr prosesau drafftio cyfansoddiad yn ei ddisgwyl".[6] Fodd bynnag, mae'r 'gyfradd eithaf isel' hon yn gwrthgyferbynnu â'r broses diwygio cyfansoddiadol a welwyd yn Tiwnisia yn dilyn "y Gwanwyn Arabaidd, pan gafodd 43 y cant o gynigion gan y cyhoedd eu cynnwys yn y drafft terfynol".[7]

Gallai'r amrywiad hwn ym mewnbwn y cyhoedd yn y pen draw adlewyrchu gwahaniaethau o ran "cynnwys sefydliadau penodol sy'n datblygu consensws".[8] Yn achos Tiwnisia, roedd gofynion pleidlais fwyafrifol y Cynulliad Cenedlaethol i gymeradwyo'r cyfansoddiad … "yn atal penderfyniadau unochrog gan y grŵp mwyafrifol ac yn hwyluso adeiladu consensws [ar draws y pleidiau]; ceid hefyd gorff ad hoc a oedd â'r bleidlais derfynol ar ddarpariaethau dadleuol".[9]

Gan gasglu'r gwahanol astudiaethau achos ar y pwnc hwn, ni cheir patrwm clir yn y berthynas rhwng cyfranogiad y cyhoedd a democratiaeth gyfansoddiadol. Ystyriwch y canlynol:[10]

1. *Mae De Affrica … yn achos lle'r oedd y cyfranogiad yn helaeth, a lle bo'r ddogfen sy'n deillio ohono yn sgorio'n dda ar fesurau hawliau, dygnwch a gorfodaeth.*
2. *Defnyddiodd Eritrea, Ethiopia a Gwlad Thai brosesau cyfranogol eang na chawsant fawr ddim effaith, os o gwbl, ar y system wleidyddol ddilynol.*

---

2 International IDEA (2021). *Practical Considerations for Public Participation in Constitution-Building What, When, How and Why?*, t.7.
3 Ibid., t.19.
4 Pasarlay, S. (2024). 'Public Participation in the Constitution-Making Process: The Afghan Experiment'. 49 Brook. J. Int'l L. 50., t.61.
5 Hudson, A. (2021). 'Political Parties and Public Participation in Constitution Making: Legitimation, Distraction, or Real Influence?'. *Comparative Politics*, 53(3), t.504.
6 Hudson, A. (2018). 'When Does Public Participation Make a Difference? Evidence From Iceland's Crowdsourced Constitution'. *Policy & Internet*, 10(2), t.199.
7 Maboudi, T. (2020). 'Reconstituting Tunisia: Participation, Deliberation, and the Content of Constitution'. *Political Research Quarterly*, 73(4), t.774.
8 Ibid., t.774.
9 Ibid., t.785.
10 Ginsburg, T., Elkins, Z. & Blount, J. (2009). 'Does the Process of Constitution-Making Matter?'. *Annual Review of Law and Social Sciences*, 5(5), tt.15-16.

3. *Mae gorchmynion cyfansoddiadol yn yr Almaen, Japan a Dwyrain Ewrop yn ymddangos yn iach er gwaethaf y ffaith bod y dogfennau hyn naill ai wedi'u gorfodi gan bwerau tramor neu eu bod wedi'u creu o ganlyniad i drafodaethau bwrdd crwn ar lefel elît*.

Mae hefyd yn bwysig bod yn ymwybodol o'r "gadwyn achosol hir sy'n bodoli rhwng amser drafftio'r cyfansoddiad a lefel y ddemocratiaeth a allai fodoli yn y wladwriaeth ddegawd yn ddiweddarach".[11] Mewn geiriau eraill, efallai na fydd yn bosibl ynysu cyfranogiad y cyhoedd fel rhywbeth sy'n arwyddocaol yn achosol i broses gyfansoddiadol (neu i'r cyfansoddiad ei hun), yn enwedig yn y tymor hir, o ystyried cymhlethdod y diwylliant gwleidyddol ar draws gofod ac amser.

## » 1.1: Y ddadl o blaid

Mae dadleuon o blaid cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfansoddiadau fel arfer yn dadlau eu hachos yn ôl prosesau a chanlyniadau. Mae'r ddadl dros brosesau yn datgan bod cyfranogiad yn ymarfer gwerthfawr ac ystyrlon ynddo'i hun (ni waeth beth fo'r canlyniad), ac yn un o'r ffyrdd angenrheidiol o fynegi sofraniaeth y bobl. Mae'n disgrifio'r broses o greu cyfansoddiadau fel fforwm lle gall dinasyddion "gydgynghori, cyfnewid gwybodaeth yn heddychlon, cydnabod gwahaniaethau, trafod setliadau, a meithrin ymddiriedaeth a goddefgarwch".[12]

Gellir ei hystyried yn **broses** o "gyfreithloni o'r gwaelod";[13] mae adolygu neu adnewyddu cyfansoddiad yn tarfu ar drefn sefydliadol sefydledig, ac mae dilysu drwy gyfranogi yn ffordd o ad-drefnu. "Cyfreithlondeb cyflenwol yw hwn yn hytrach na chyfreithlondeb sydd mewn unrhyw ffordd yn ddigyffelyb i … sefydliadau etholedig".[14] Roedd y trafodaethau ar Gonfensiwn Cyfansoddiadol Iwerddon (2012-14) yn dathlu'r broses yn ei rhinwedd ei hun, hyd yn oed pan oedd:

> *too early to judge the success of this ICC [in terms of outcomes] … as a process, in terms of how the ICC operated, it was seen as a great success: many who had been critical before admitted to being converted, and senior politicians from all parties talk of the possibility of creating another ICC in the future.*[15]

Mae'r ddadl dros **ganlyniadau** yn rhagdybio y gall prosesau cyfranogol arwain at fwy o ddilysrwydd, sefydlogrwydd a chyfyngiadau ar lywodraeth.[16] Mae'r cyfansoddiadau eu hunain hefyd yn fwy tebygol o elwa o ddarpariaethau sy'n diogelu hawliau lleiafrifol a rhyddid crefyddol.[17] Mae'r manteision democrataidd hyn yn dal i fod yn ddadleuol, ond dangosir eu bod yn arbennig o amlwg "yn y blynyddoedd ar ôl cadarnhau, yn enwedig pan geir lefel dda iawn o gyfranogiad yng ngham cyntaf y broses".[18]

---

11 Hudson (2021), t.504.
12 Pasarlay (2024), t.61.
13 Hudson (2021), t.503.
14 Carolan, E. (2015). 'Ireland's Constitutional Convention: Behind the hype about citizen-led constitutional change'. *International Journal of Constitutional Law* 13(3), t.736.
15 Farrell, D. (2014). "The Irish Constitutional Convention offers a potential routemap for renewing UK democracy". *Democratic Audit UK*.
16 Carey, J. (2009). 'Does It Matter How a Constitution Is Created?'. In: Barany, Z.D. & Moser, R.G. (eds.), Is Democracy Exportable?, tt.156–77. Wallis, J. (2016) 'How Important Is Participatory Constitution-Making? Lessons from Timor-Leste and Bougainville'. Commonwealth & Comparative Politics, 54, tt.362–86.
17 Fruhstorfer, A. & Hudson, A. (2021). 'Majorities for Minorities: Participatory Constitution Making and the Protection of Minority Rights'. *Political Research Quarterly*, 75(1), t.105.
18 Hudson (2021), t.504.

## » 1.2: Y ddadl yn erbyn

Wrth drafod Confensiwn Cyfansoddiadol Iwerddon, y cyfeirir ato mor aml fel enghraifft i'w hefelychu; ac sy'n "berthnasol dros ben yn nhrafodaethau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig ar ôl refferendwm yr Alban",[19] gwelwn rybuddion o hyd nad yw "cynnwys y bobl (neu, yn fwy cywir, rhai pobl) yn y broses yn rhoi dim sicrwydd y bydd y bobl hynny'n cael – neu yn wir y dylent gael – gwrandawiad".[20]

Hyd yn oed wrth ddadlau'r achos dros gyfranogi'n gyffredinol, mae angen gwahaniaethu rhwng diwygio cyfansoddiad a chreu cyfansoddiad. Mae'r olaf "yn digwydd bron yn ddieithriad yn sgil ymgodymu am bŵer, gwrthdaro arfog, a therfysg treisgar"[21]. Mae'r amgylchiadau hyn, lle mae rhaniadau sylweddol yn golygu ei bod yn angenrheidiol gwneud cyfansoddiad yn y lle cyntaf, yn golygu bod cyfaddawdu'n anodd iawn ymysg cyfranogwyr cyhoeddus.[22]

Felly, ni ddylid tybio bod cyfranogiad y cyhoedd o fudd i'r holl brosesau cyfansoddiadol yn awtomatig. Mae cyfyngiadau cyfranogiad hefyd i'w gweld yn

> *y tair proses gyfranogol systematig fwyaf cyffredin erioed – yng Ngwlad yr Iâ 2010, yr Aifft 2012, a Chile 2016 – [sydd] i gyd wedi dod i ben, am y tro o leiaf, drwy'u bod wedi methu â chytuno ar ddrafft (Chile), cadarnhau'r cyfansoddiad (Gwlad yr Iâ), na hyd yn oed bara mwy na 6 mis ar ôl gweithredu (Yr Aifft) … ni wnaeth yr un o'r ymdrechion hyn esgor ar gyfansoddiad newydd, sefydlog.*[23]

Gellid dadlau bod yr achosion hyn wedi rhoi blaenoriaeth i gyfranogiad yn hytrach na chynhwysiant; mewn geiriau eraill, rhoi blaenoriaeth i "nifer y cyfranogwyr yn yr ystafell yn hytrach na chynnwys yr ystod ehangaf bosibl o fuddiannau"[24]. Wedi'r cyfan, "mae'n hawdd iawn i gydgynghori am egwyddorion sylfaenol trefniadaeth gymdeithasol droi'n frwydr rhwng y mwyafrifoedd a'r lleiafrifoedd, gyda'r mwyafrifoedd yn aml yn ceisio gorfodi rhan fawr o'u gweledigaeth o drefn cymdeithas ar y lleiafrifoedd".[25]

Mae hyn yn dangos dadl ehangach "na all cyfranogiad yn unig gynhyrchu cyfansoddiadau sy'n gwella lefelau democratiaeth, na weithiau, hyd yn oed weithrediad cyfansoddiadau newydd, a bod cyfranogiad heb gynhwysiant yn sicr o fethu".[26]

Mae perygl hefyd y bydd elîtiaid gwleidyddol yn defnyddio "prosesau cyfranogol sy'n cael eu harwain gan ddinasyddion neu sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion … er mwyn osgoi cyfrifoldeb gwleidyddol, lle mae proses sefydliadol hir i archwilio diwygiadau posibl yn dod yn ffordd … o wreiddio'u safiad yn effeithlon nes bydd y pwysau i ddiwygio wedi lleihau".[27] Mewn sefyllfaoedd o'r fath, "gellir ystyried bod gwneud sioe o gynnwys dinasyddion cyffredin yn y broses hon, yn enwedig pan mae'r elîtiaid gwleidyddol yn cadw rheolaeth dros eu hagenda a dros ganlyniad terfynol y broses, yn gyfystyr â rhoi argraff yn unig o ymgynghori neu o ymrwymiad i ddiwygio".[28]

---

19 Carolan (2015), t.734.
20 Carolan (2015), t.735.
21 Pasarlay (2024), t.52.
22 Gweler: Negretto, G. (2020). 'Constitution-making and liberal democracy: The role of citizens and representative elites'. *International Journal of Constitutional Law*, 18(1), tt.206–232. Mae hon yn ystyriaeth bwysig, o ystyried pwysigrwydd cyfaddawdu wrth lunio cyfansoddiad. Mae'n aml yn haws cael cyfaddawd yn yr amgylchiadau hyn ymysg 'elîtiaid gwleidyddol' (gweler Adran 4).
23 Eisenstadt, T. A. & Maboudi, T. (2019). 'Being There Is Half the Battle: Group Inclusion, Constitution-Writing, and Democracy'. *Comparative Political Studies*, 52(13-14), p.2136.
24 Ibid., t.2137.
25 Fruhstorfer & Hudson (2021), t.105.
26 Eisenstadt & Maboudi (2019), t.2136.
27 Carolan (2015), t.746.
28 Ibid.

**Tabl 1: Crynodeb o blaid ac yn erbyn cynnwys dinasyddion mewn prosesau cyfansoddiadol**

| Y ddadl o blaid | Y ddadl yn erbyn |
|---|---|
| Credir fwyfwy y bydd cyfranogiad yn cael ei gynnwys (mae cwestiynau sut a phryd yn fwy tebygol) | Mae'n bosibl esgeuluso cwestiynau pwysig ynghylch a ddylid cynnwys cyfranogiad, a pham |
| Cydberthynas cadarnhaol ag ansawdd democratiaeth | Dim perthynas achosol glir ag ansawdd democratiaeth |
| Un o'r gofynion cyfansoddiadol sy'n dod yn fwyfwy cyffredin | Ddim yn un o'r gofynion cyfansoddiadol traddodiadol |
| Mae'n bosibl ac yn fuddiol mewn diwygiadau cyfansoddiadol | Mae'n anodd a hyd yn oed yn niweidiol wrth lunio cyfansoddiad |
| Gall ddod â manteision i'r prosesau a/neu'r canlyniadau | Gall fethu ag esgor ar gyfansoddiadau sefydlog newydd |
| Mae'n arbennig o effeithiol o'i gyfuno â chynhwysiant | Mae bron yn sicr o fethu heb gynhwysiant |

# 2. Llunio cyfansoddiadau'n gyfranogol ledled y byd: tueddiadau ac enghreifftiau

Os yw bellach yn anodd "dirnad y byddai llywodraeth yn ceisio drafftio cyfansoddiad newydd heb o leiaf roi ymrwymiad symbolaidd i broses ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd",[29] mae hyn yn wahanol iawn i'r "dulliau traddodiadol o greu dogfen derfynol y cawsant ers tro byd eu neilltuo'n gyfan gwbl ar gyfer elîtiaid gwleidyddol a chyfreithwyr".[30]

Fe wnaeth y broses draddodiadol ddethol hon newid yn sylweddol yn ystod ail hanner yr 20fed ganrif; pan fu "cynnydd hynod yn lefel cyfranogiad y cyhoedd yn y broses o lunio cyfansoddiadau a thwf aruthrol yn y rhan y mae'r bobl yn ei chwarae mewn prosesau diwygio cyfansoddiadol".[31] Un trobwynt penodol oedd proses gwneud cyfansoddiad De Affrica 1994-1996, a arweiniodd at weld "cyfranogiad dinasyddion yn ehangu fel un o elfennau allweddol y prosesau cyfansoddiadol democrataidd ledled y byd".[32] Tan hynny, roedd yn dal yn bosibl dadlau bod "sofraniaeth y bobl yn cael ei gwadu a'i llethu i ryw raddau, yn hytrach na'i chadarnhau a'i mynegi, yn y ffurfiau cyfansoddiadol presennol".[33]

Felly, dros y tri degawd diwethaf gwelwyd y "ddealltwriaeth o bwy yw'r 'gwneuthurwyr cyfansoddiadau' dilys yn cael ei hehangu'n aruthrol i gynnwys yn awr hefyd ddinasyddion cyffredin gwledydd".[34] Un digwyddiad sy'n adlewyrchu'r ehangu hwn yw ffurfio Cynulliad y Dinasyddion yn British Columbia yn 2004, a oedd yn cynnwys 160 o drigolion, wedi'u dewis ar hap: "Am y tro cyntaf mewn hanes modern, cafodd y dasg o greu system etholiadol ei rhoi i ddinasyddion arferol yn hytrach nag i wleidyddion neu arbenigwyr".[35]

At hynny, proses diwygio cyfansoddiadol 2010-13 Gwlad yr Iâ oedd y tro cyntaf i "destun sylfaenol gwlad (neu o leiaf gynnig drafft ar ei gyfer) gael ei ysgrifennu gyda chyfranogiad uniongyrchol ei phobl fwy neu lai".[36]

29 Kirkby, C. & Murray, C. 'Constitution-Making in Anglophone Africa: We the People?'. Yn: Ndulo, M. & Gazibo, M. (eds.), *Growing Democracy in Africa: Elections, Accountable Governance, and Political Economy*, t.87.
30 Saati, A. (2016). 'Different Types of Participation in Constitution Making Processes: Towards a Conceptualisation'. *Southern African Journal of Policy and Development*, 2(2), t.18.
31 International IDEA (2021), t.13.
32 Pasarlay (2024), t.57.
33 Tully, J. (1995). 'Cultural demands for Constitutional Recognition'. *The Journal of Political Philosophy*, 3(2), t.5.
34 Saati, A. (2020). 'Participatory constitution-building in Fiji: A comparison of the 1993-1997 and the 2012–2013 processes'. *International Journal of Constitutional Law*, 18(1), t.261.
35 Participedia. *British Columbia Citizens' Assembly on Electoral Reform*. www.participedia.net/case/1
36 Landemore, H. (2015). 'Inclusive Constitution-Making: The Icelandic Experiment'. The Journal of Political Philosophy, 23(2), t.167.

### Astudiaeth Achos 1: Cynulliad Cyfansoddiadol Gwlad yr Iâ[37]

| | |
|---|---|
| **Pwrpas** | Penodi 25 o ddinasyddion i greu drafft cyfansoddiadol rhwng 6 Ebrill a 29 Gorffennaf 2011, gan ddiwygio a diweddaru cyfansoddiad 1944. |
| **Sefydliadau** | Senedd Gwlad yr Iâ: cychwyn y Cynulliad Cyfansoddiadol; a phenodi aelodau a etholwyd yn gyhoeddus i eistedd yn y Cynulliad. |
| **Cyfranogwyr** | Safodd 522 i gael eu hethol; cafodd 25 eu hethol i'r Cynulliad. |
| **Dulliau** | Hysbysebu am gynigion gan y cyhoedd [dyma pam maent yn honni bod y wlad gyntaf i 'gyfrannu'n dorfol' i ddiwygio'r cyfansoddiad].<br><br>Cyhoeddi drafftiau rhagarweiniol ar-lein i'r cyhoedd eu hadolygu; cyhoeddi awgrymiadau ychwanegol gan y cyhoedd (wedi'u cymeradwyo i'r Cynulliad eu hystyried) i'r cyhoedd eu trafod, i'w cynnwys o bosibl yn y drafft cyfansoddiadol nesaf. |
| **Effaith** | Refferendwm cyfansoddiadol nad oedd yn rhwymol a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2012; roedd y mwyafrif o'r Aelodau Seneddol yn gefnogol i'r bil a gyflwynwyd o ganlyniad, ond ni ddaeth gerbron y senedd i bleidleisio arno cyn galw'r toriad cyn etholiad 2013. |

Mae hefyd yn dod yn fwy cyffredin i gynnwys dinasyddion yn gynharach yn y broses, drwy ddulliau fel ymgynghoriadau cyhoeddus, deisebau, cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar, a hyd yn oed ddiwygiadau gan y bobl. At hynny, mae cyfranogi yn uniongyrchol (gan gynnwys mewnbwn ar y testun ei hun) yn dod yn fwyfwy cyffredin, gyda dyfodiad technoleg newydd i ennyn cyfranogiad gan ddinasyddion, er enghraifft wrth ddrafftio deddfwriaeth:[38]

> *creodd siambr isaf Cyngres Brasil "Labordy Hacwyr" i ddatblygu ffyrdd arloesol o gynnwys dinasyddion yn y broses ddeddfu … Mae un o'u prosiectau, o'r enw Wikilegis, yn caniatáu i ddinasyddion sy'n cymryd rhan gydweithio i ysgrifennu'r testun ar gyfer deddfwriaeth newydd … Cafodd offeryn i'r cyhoedd gael cyfranogi ar-lein … ei ddatblygu ar gyfer proses llunio cyfansoddiad yr Aifft yn 2012 … cafodd drafftiau o'r cyfansoddiad eu postio ar-lein, a rhoddwyd cyfle i ddinasyddion roi sylwadau ar erthyglau unigol, a dweud pa rai roeddent yn eu hoffi neu ddim yn eu hoffi.*

Dangos parhad yn hytrach na newid y mae rhai tueddiadau fodd bynnag. Er enghraifft, os yw cyfranogiad y cyhoedd yn rhan o'r broses o lunio cyfansoddiad, drwy broses bleidleisio y gwneir hynny fel arfer; naill ai ar ffurf corff drafftio etholedig, neu fod y cyfansoddiad ei hun yn cael ei gadarnhau drwy refferendwm:[39]

> *Rhwng 1789 a 2016, cadarnhawyd 168 o gyfansoddiadau drwy refferendwm, ac yn 2018 cadarnhawyd dros draean o gyfansoddiadau gweithredol drwy refferendwm. Mae'r nifer hwn yn debygol o gynyddu, gan fod dros hanner y cyfansoddiadau a gadarnhawyd ar ôl 2000 wedi cael eu cymeradwyo gan y pleidleiswyr mewn refferendwm.*

37 Participedia. *Cynulliad Cyfansoddiadol Gwlad yr Iâ 2011.* www.participedia.net/case/131
38 Hudson (2018), t.190.
39 Hudson (2021), t.502.

Hyd heddiw, dangosir y broses ar siâp awrwydr,[40] gyda'r "cyhoedd yn ymgysylltu ar ddechrau'r broses – er enghraifft, drwy ethol cynrychiolwyr i'r cynulliad sy'n llunio'r cyfansoddiad – ac ar ddiwedd y broses, drwy refferendwm ar y testun terfynol":[41]

**Ffigur 1: Y cysyniad o gyfranogiad y cyhoedd mewn prosesau cyfansoddiadol fel 'awrwydr'[42]**





Diagram o ffynhonnell allanol, Saesneg yn unig

Mae'r model hwn o gyfranogiad y cyhoedd y cyfeirir ato'n aml, serch hynny, wedi bod yn destun beirniadaeth dros y degawd diwethaf,[43] gan fod cyfranogiad y cyhoedd bellach yn fwy cyffredin gydol y broses. Mae'r enghraifft o Wlad yr Iâ yn dangos ymgysylltu parhaus, yn ogystal â datblygiadau ehangach mewn prosesau cyfansoddiadol.[44] Er enghraifft, os cymharwn y rhai a oedd yn bresennol pan lofnodwyd Cyfansoddiad yr Unol Daleithiau yn 1787 gyda chyfansoddiad Cyngor Cyfansoddiadol Gwlad yr Iâ yn 2011, gwelwn wrthgyferbyniad amlwg – rhwng dau "gyfnod a dau ddull o lunio cyfansoddiad, un yn elitaidd a chyfrinachol, a'r llall yn gynhwysol ac agored":[45]

40 Elster, J. (1995). 'Forces and Mechanisms of the Constitution-Making Process'. *Duke Law Journal*, 45, tt.395-396.
41 International IDEA (2021), t.13.
42 Gan edrych yn benodol ar y disgrifiad a ddarperir yn Pasarlay (2024), tt.53-54.
43 Eisenstadt, T.A., Levan, A.C., Maboudi T. (2015). 'When Talk Trumps Text: The Democratizing Effects of Deliberation during Constitution-Making, 1974-2011'. *American Political Science Review*, 109(3), tt.592-612.
44 Ysgogir y gynrychiolaeth weledol hon drwy drafodaeth gan Landemore (2015).
45 Ibid., t.167.



*Darlun Howard Chandler Christy Scene at the Signing of the Constitution of the United States (1940)*




*Aelodau Cyngor Cyfansoddiadol Gwlad yr Iâ* *Drwy garedigrwydd: Skrifstofa Stjórnlagaráðs/ Flickr*

Mae'r gwahaniaeth rhwng y delweddau hyn yn dangos cyfranogiad ehangach, nid yn unig mewn prosesau cyfansoddiadol ond yn y rheini sy'n gyfrifol amdanynt. Mae'r datblygiad hwn yn arwyddocaol iawn o ran pwy a beth y gellir ei gynrychioli drwy gyfansoddiad:[46]

> *Roedd Cyngor Cyfansoddiadol [Gwlad yr Iâ] yn cynnwys … Freyja Heraldsdottir, ymgyrchydd hawliau dynol sydd ag anableddau difrifol ac sy'n cael y clod am ddylanwadu ar adran hawliau dynol y cynnig torfol (a'i addasu'n sylweddol o'i ddiweddariad diwethaf yn 1995).*

Fodd bynnag, "fe wnaeth yr ymarfer yng Ngwlad yr Iâ wrth lunio cyfansoddiad roi terfyn ar y syniad mai dim ond yn ddirprwyol, drwy gynrychioldeb y corff sy'n drafftio, y gellir cynnwys y boblogaeth".[47] Mewn geiriau eraill, "nid yw'n ddigon bod cynulliad yn edrych yn gynrychioliadol neu'n cydymffurfio â sampl sy'n ystadegol ddilys; mae hefyd yn hanfodol archwilio'r ffordd y mae'r corff yn cael gwybodaeth, yn deall y wybodaeth honno ac yn ei defnyddio".[48] Mae hyn yn gofyn am archwilio'r gwahanol ffyrdd o gynnwys y cyhoedd, p'un a yw'r ffocws ar gyfranogi ("pwy sy'n rhan o'r broses o wneud penderfyniadau), cydgynghori (sut mae'r cyfranogiad hwnnw'n digwydd"),[49] ynteu ar gyfuniad o'r ddau.

46 Landemore, H. (2020). 'When public participation matters: The 2010-2013 Icelandic constitutional process', *International Journal of Constitutional Law*, 18(1), t.198.

47 Ibid., t.201.

48 Carolan (2015), t.738.

49 Suteu, S. & Tierney, S. (2018). 'Squaring the circle? Bringing deliberation and participation together in processes of constitution-making'. In: Levy, R., Kong, H., King, J. & Orr, G. (eds.), *The Cambridge Handbook of Deliberative Constitutionalism*. tt.282-294.

# 3. Dulliau cyfranogol a chydgynghorol

Mae cyfranogiad "yn ymwneud â'r niferoedd, ag 'ehangder' y bobl sy'n cyfranogi, a llai am 'ddyfnder' y cyfranogiad, o bosibl gyda thuedd at sefydlu pŵer gwleidyddol".[50] Mae'n cael ei "ddangos gan refferendwm y bobl ac felly mae'n ceisio ysgogi nifer fawr o ddinasyddion i benderfynu, drwy bleidlais ie/na, ar fater pendant sy'n cael ei fframio fel arfer gan weithredwyr gwleidyddol; mae ei llwyddiant yn tueddu i gael ei werthuso ar sail nifer y bobl sy'n pleidleisio ac eglurder y bleidlais",[51] ac felly mae'n fwy mesuradwy.

Mae cydgynghori yn ymwneud ag "ansawdd (natur gydgynghorol) y cyfranogiad, llawer llai am niferoedd mawr, a … sefydlu tir cyffredin".[52] Fe'i "dangosir gan gynulliadau dinasyddion a chonfensiynau cyfansoddiadol ac mae'n ymwneud mwy ag ansawdd y broses o wneud penderfyniadau a'i gallu i gymell rhesymu cyhoeddus a dod i gonsensws. Gellir pennu ei llwyddiant yn ôl y myfyrio, yr ymatebolrwydd, a'r cyfnewid rhesymau",[53] ac felly'r ansawdd nid y maint a fesurir amlaf.

**Tabl 2: dulliau cyfranogol a chydgynghorol mewn prosesau cyfansoddiadol[54]**

| Dull | Ffordd/cam | | Defnydd | Enghreifftiau |
|---|---|---|---|---|
| Cyfranogaeth | Pleidleisio | Refferenda | Pleidlais Ie/na yn y cam cymeradwy<br>Y bobl yn dilysu/gwrthod y cynnig drafft | Chile 1980; Ecwador 2008; Yr Aifft 2014; Guinea 2020; Iwerddon 2015 a 2018; Kenya 2005 a 2010 |
| | | Etholiadau | Dechrau'r broses yn cael ei chynnwys ar lwyfannau ymgyrchu<br>Ethol cynrychiolwyr i'r cynulliad sy'n llunio'r cyfansoddiad | Bolifia 2005 & 2006-7; Chile 2013; Hwngari 2010-14; Mongolia 2017; De Affrica 1994-99; Sri Lanka 2015; Tiwnisia 2011-14; Fietnam 2011-16 |
| | Ymgyngh-oriadau | Refferendwm ymgynghorol/ pleidlais gwlad | Mae canlyniadau nad ydynt yn rhwymo yn rhoi gwybodaeth i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau am farn y cyhoedd<br>Mae'n gallu siapio prosesau a phenderfyniadau ar gynnwys | Canada 1992; Colombia 1990; Gwlad yr Iâ 2012; Lwcsembwrg 2015; De Affrica 1992; Sbaen 1976 |

50 Carson, L. & Elstub, S. (2019). *Comparing participatory and deliberative democracy*, t.4.
51 Suteu & Tierney (2018), t.13.
52 Carson, L. & Elstub, S. (2019), *Comparing participatory and deliberative democracy*, t.4.
53 Suteu & Tierney (2018), t.13.
54 Ffynhonnell: International IDEA (2021).

| Dull | Ffordd/cam | | Defnydd | Enghreifftiau |
|---|---|---|---|---|
| Cyfranogaeth (Parhad) | Ymgyngh-oriadau (Parhad) | Ceisiadau am gyflwyniadau/sylwadau | Gall dargedu'r cyhoedd yn gyffredinol a sefydliadau arbenigol/arbenigwyr<br>Cyflwyniadau ar-lein drwy wefannau/cyfryngau cymdeithasol i ategu cyflwyniadau papur | Yr Aifft 2012; Gwlad yr Iâ 2011-13; Dinas Mecsico 2016-17; Tiwnisia 2011-14 |
| | | Arolygon/holiaduron | Asesu barn ar faterion sy'n ymwneud â'r broses/materion o bwys | Y Gambia 2017-18; Kenya 2002; Nepal 2008-12 |
| | | Cyfarfodydd wyneb yn wyneb | Angenrheidiol at ddibenion cyfranogol, addysgol ac ymgynghorol<br>Gall fod yn gydgynghorol neu'n unffordd | Eritrea 1997; Fiji 2012; Uganda 1995 |
| Cydgynghori | Cynulliadau bach i'r cyhoedd | | Adolygu'r eitemau ar yr agenda a rhoi blaenoriaeth i ystyriaethau diwygio | Gwlad yr Iâ 2010 |
| | | | Llunio argymhellion ar gyfer y corff sy'n drafftio | Iwerddon 2017 & 2019; Mongolia 2017 |
| | | | Cynhyrchu argymhellion ar gyfer refferendwm | British Columbia 2004; Ontario 2006 |
| | | | Adolygu'r cynigion cyn cynnal refferendwm | Oregon (parhaol) |
| | Cyrff sy'n dethol eu hunain | | Deall unrhyw bryderon neu wrthdaro a'u rhoi yn eu cyd-destun<br>Adolygu'r manylion/gwaith blaenorol<br>Creu cynlluniau gweithredu a safbwyntiau cyfunol | Chile 2016 |
| | Cynadleddau cyfansoddiadol | | Datblygu cytundebau/argymhellion cychwynnol ar gyfer diwygio<br>Un o sawl corff mewn proses aml-gam | Sambia 2007 |

Er bod cyfranogi a chydgynghori yn wahanol o ran eu nodau, eu dulliau a'u dealltwriaeth o 'lwyddiant', "nid elfennau deuaidd mohonynt ac yn enw democratiaeth ni ddylent fod yn elfennau deuaidd".[55] Rhoddir amlinelliad o broses gyfansoddiadol gyfranogol-gydgynghorol isod; un sy'n rhoi "lle i ofynion moment benodol: natur y materion sy'n cael eu hystyried, ymarfer lleol ac ystyr yr arferion hynny, eu maint ac a ydym yn siarad am foment 'llunio cyfansoddiad' fawr ynteu mater mwy penodol":[56]

55 Suteu & Tierney (2018), t.11.

56 Parkinson, J. (2018). 'Ideas of Constitutions and Deliberative Democracy and How They Interact'. In: Levy, R., Kong, H., Orr, G. & King, J. (eds.). *The Cambridge Handbook of Deliberative Constitutionalism*, t.253.

*cam eang ac agored iawn i osod yr agenda, cam sydd wedi'i angori yn y maes cyhoeddus anffurfiol; cam cynhyrchu opsiynau sydd ar raddfa lai ond sy'n dal i fod yn gam cyhoeddus a chydgynghorol sy'n cyfuno arbenigwyr, cynrychiolwyr dinasyddion lleyg a rhanddeiliaid eraill; gwneud penderfyniadau, naill ai drwy ddulliau torfol uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy gynrychiolwyr; ac yna prosesau gweithredu a chraffu mwy cyfyng. Mae trefn o'r fath yn dechrau ar raddfa fawr ac yn gwasgaru i ysgogi a chofnodi naratifau am brofiadau, syniadau a honiadau … yna mae'n canolbwyntio ei hegni ar leoliadau cydgynghorol penodol i egluro'r opsiynau a'u cysylltu â thystiolaeth a dadleuon, i ddelio â'r hyn sydd yn y fantol; yna caiff ei chyflwyno ar raddfa fawr eto er mwyn rhoi dewis a dilysrwydd torfol; cyn hoelio'r sylw unwaith eto er mwyn gweithredu a chraffu.*

Mae pwysigrwydd "creu cysylltiadau rhwng cyfranogi a chydgynghori – h.y. rhwng maint ac ansawdd y cynhwysiant" wedi cael ei ddefnyddio i esbonio "methiant Gwlad yr Iâ i fabwysiadu'r drafft cyfansoddiadol a gynhyrchwyd gan y bobl … a briodolir yn rhannol o leiaf i gyfraniad hwyr elîtiaid gwleidyddol a oedd wedi teimlo eu bod wedi'u dieithrio o'r broses, yn ogystal â llwyddiant cychwynnol proses Iwerddon … a hynny i raddau helaeth oherwydd y rhyngweithio parchus o fewn y confensiwn a'r ffaith nad oedd y gwleidyddion a oedd yn rhan o'r broses, yn ôl bob golwg, yn dominyddu'r dadleuon".[57]

### Astudiaeth Achos 2: Confensiwn Cyfansoddiadol Iwerddon[58]

| | |
|---|---|
| **Pwrpas** | Cafodd y confensiwn ei gynnull ar ddiwedd 2012 i drafod gwelliannau cyfansoddiadol; gan ystyried agweddau ar y Cyfansoddiad i sicrhau eu bod yn berthnasol i'r 21ain Ganrif. |
| **Sefydliadau** | Menter gan Senedd Iwerddon ydoedd; fe'i hariannwyd o fewn Dyraniad Adran y Taoiseach; ac fe'i gweinyddwyd gan dîm bychan o weision sifil. |
| **Cyfranogwyr** | Sampl ar hap o 66 o ddinasyddion sy'n cynrychioli poblogaeth Iwerddon fel cynadleddwyr i'r Confensiwn; mae 66 o ddinasyddion yn cysgodi pob un o'r cynadleddwyr, ac yn llenwi mewn os nad ydynt ar gael.<br><br>Roedd 33 o'r cynrychiolwyr yn perthyn i bleidiau gwleidyddol (4 yn cynrychioli pob un o bleidiau gwleidyddol Gogledd Iwerddon); 1 cadeirydd annibynnol a benodwyd gan y llywodraeth mewn ymgynghoriad â'r gwrthbleidiau. |
| **Dulliau** | Roedd gwefan y Confensiwn yn caniatáu i ddefnyddwyr gyflwyno cynigion i'w trafod; roedd sesiynau llawn yn cael eu ffrydio ar fideo; a chyhoeddwyd y trafodaethau a'r dogfennau cysylltiedig.<br><br>Cyfarfodydd y confensiwn mewn cyfarfodydd llawn; briffio aelodau cyn trafodaethau ffurfiol; panel cynghori yn cynnwys academyddion, gwyddonwyr gwleidyddol a chyfreithwyr cyfansoddiadol i roi arweiniad arbenigol. |
| **Effaith** | Ymatebodd y Llywodraeth yn ffurfiol i bob un o naw adroddiad y Confensiwn; cynhaliodd refferendwm ar dri chynnig, dau yn 2015 (pasiwyd un) ac un yn 2018 (pasiwyd). |

57 Ibid., t.12.
58 Participedia. *Irish Constitutional Convention (2012-2014)*. www.participedia.net/case/850

# 4. Cyfleoedd a heriau

Mae cyfranogiad y cyhoedd ynddo'i hun yn rhoi inni heriau a chyfleoedd ar gyfer llunio cyfansoddiadau. Mae'n bwysig cydnabod yr her sy'n rhan annatod o

> *ysgrifennu dogfen gyfreithiol sy'n adlewyrchu gofynion y cyhoedd ar un llaw a hefyd yn sicrhau bod ganddi gynnwys cydlynol a democrataidd sy'n bodloni'r holl grwpiau gwleidyddol a chymdeithasol. Mae prosesau cyfranogol fel arfer yn cynyddu nifer y gofynion, ac mae hynny'n ei gwneud yn anos dod i gytundeb.*[59]

Fodd bynnag, nid yw'r heriau cynhenid hyn, a'r cyfyngiadau "ar effeithiolrwydd cyfranogiad dinasyddion yn y broses o lunio cyfansoddiadau … yn tanseilio'n sylfaenol rinweddau cyfranogiad y cyhoedd" a drafodwyd cyn belled.[60] Mae'r adran hon yn trafod yr heriau a'r cyfyngiadau hyn, yn ogystal â'r chyfleoedd i gynnwys dinasyddion mewn prosesau cyfansoddiadol.

## » 4.1: Cyd-destun sefydliadol a chyfansoddiadol

Un cyfle pwysig ar gyfer defnyddio dulliau cyfranogol a chydgynghorol (y tu hwnt i bleidleisio) yw bod pobl yn cael eu siomi fwyfwy â pherfformiad sefydliadau etholedig a'u dadrithio â'r broses etholiadol".[61] Gall y siom a'r dadrithiad hyn esbonio'r ffaith, hyd yn oed mewn achosion amlwg o gyfranogiad y cyhoedd mewn prosesau cyfansoddiadol, fod rhai meintiolwyr yn awgrymu y ceir diffyg awydd i gymryd rhan ymysg y cyhoedd. Y nifer a bleidleisiodd dros gael eu hethol i Gynulliad Cyfansoddiadol Gwlad "yr Iâ oedd tua 83,000 o bobl o boblogaeth o 320,000, cyfradd gyfranogi o 35.95%".[62] Mae dangosyddion eraill yn cynnwys:[63]

> *Y nifer fechan o bleidleisiau sy'n cefnogi'r mwyafrif o aelodau'r Cynulliad (roedd 15 ohonynt heb gael mil o bleidleisiau hyd yn oed) … [a'r] ffaith mai dim ond ychydig dros 4,000 o bobl sydd wedi "hoffi" tudalen Facebook y Cynulliad yn ystod y broses o ddrafftio'r cyfansoddiad … Nid yw'n glir felly a yw'r broses ddiwygio wedi llwyddo i wir ennyn diddordeb poblogaeth Gwlad yr Iâ.*

Yn y DU yn benodol, "mae'r cyhoedd yr un mor feirniadol nawr o sut maen nhw'n cael eu llywodraethu ag erioed, ac mae diffyg ymddiriedaeth yn helpu i sbarduno cefnogaeth i newid cyfansoddiadol", er enghraifft o safbwynt llywodraethu datganoledig.[64] Mae cefnogaeth i newid cyfansoddiadol yn gallu bod yn gyfle neu'n her yn dibynnu a yw'r broses gyfansoddiadol gyfranogol yng Nghymru yn ystyried y cyd-destun gwleidyddol ac etholiadol hwn ac yn ceisio mynd i'r afael ag ef. O ystyried y berthynas gyfansoddiadol benodol rhwng Cymru a San Steffan, a rôl gyfansoddiadol gyfyngedig y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, Llywodraeth Cymru,

---

59 Maboudi (2020), t.785.
60 Ibid.
61 Carolan (2015), t.735.
62 Participedia. *Cynulliad Cyfansoddiadol Gwlad yr Iâ 2011.* www.participedia.net/case/131
63 Ibid.
64 Y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (2024). *Trust and confidence in Britain's system of government at record low.* www.natcen.ac.uk/news/trust-and-confidence-britains-system-government-record-low

> *ni fyddai'n bosibl creu cyfansoddiad annibynnol a chynhwysfawr i Gymru … Fodd bynnag, byddai defnyddio'r [elfennau cyfansoddiad ysgrifenedig yn y setliad datganoli] enghreifftiau statudol hyn a'u hehangu gyda rhai egwyddorion cyffredinol llywodraethu da i gynhyrchu datganiad declarasiwn am sut mae Cymru'n cael ei llywodraethu a sut dylai gael ei llywodraethu yn gallu bod yn gam gwerthfawr. Pe bai hyn yn cael ei wneud drwy gynnwys dinasyddion Cymru, gallai ennyn trafodaeth a myfyrio a gwella llythrennedd democrataidd a dinesig yng Nghymru.*[65]

Mae 'datganiad declarasiwn' yn gyfle ar gyfer gwneud cyfansoddiad yn effeithiol ond nid o reidrwydd drwy gyfranogiad y cyhoedd, oherwydd "yn enwedig mewn trawsnewidiadau cymhleth, mae sefydlu cytundebau elît sylfaenol ar egwyddorion cyfansoddiadol sylfaenol cyn agor y broses i gyfranogiad y cyhoedd yn gallu cyfrannu at berfformiad democrataidd tymor hwy".[66] Gall hyn osgoi'r problemau sy'n gysylltiedig â "Chyfansoddiad 1988 Brasil, a ddatblygwyd drwy broses gyfranogol gref ond … nad oedd yn cynnwys llawer o gydlynu ac a fethodd â sefydlu egwyddorion sylfaenol".[67]

Roedd methu â sefydlu egwyddorion sylfaenol hefyd yn hanfodol ar gyfer achosion fel Chile lle "ymgynghorwyd â miloedd o bobl mewn grwpiau ffocws helaeth, ynghylch normau yr oeddent yn ceisio eu blaenoriaethu i'w cynnwys mewn cyfansoddiad newydd[68] … "ond heb unrhyw elîtiaid grwpiau buddiant neu bleidiau wedi'u hangori'n wleidyddol a allai sicrhau bod eu cyfansoddiad yn cael ei gymeradwyo".[69] Mae prosesau cyfansoddiadol yng Nghymru yn y dyfodol yn debygol o gynnwys blaenoriaethu'r norm, felly mae'n hanfodol dysgu oddi wrth achosion fel Chile a Gwlad yr Iâ am bwysigrwydd cydlynu'r pwynt pan fo mewnbwn y cyhoedd yn cwrdd â'r dadleuon a'r cyd-destunau gwleidyddol presennol mewn sefydliadau cynrychioliadol.

## » 4.2: Rôl pleidiau

"Mae cyfranogiad y cyhoedd yn nodwedd sydd bron yn hollbresennol o'r prosesau o lunio cyfansoddiad, ond nid yw'n ateb i bob problem. Nid yw'n cymryd lle bargeinio gwleidyddol".[70] Yn wir, mae "gwleidyddiaeth gonsensws a bargeinio rhwng gwleidyddion o garfanau'r gwrthbleidiau mor bwysig fel os na cheir [dim] i ddechrau … ychydig iawn o gyfranogiad cyhoeddus y gall y broses o lunio cyfansoddiad ei gyflawni i wella democratiaeth".[71]

Mae proses gyfansoddiadol Gwlad yr Iâ yn enghraifft amlwg. Cafodd ei llesteirio gan ychydig iawn o gefnogaeth gan y pleidiau erbyn i'r cynigion gael eu pasio, ac "ni ddaeth y mesur i bleidlais gerbron y senedd cyn i'r toriad gael ei alw cyn etholiad 2013, ac roedd hynny'n rhannol drwy ffilibystro gan yr wrthblaid".[72] Felly, gall cynnwys y pleidiau fod yn gyfle ar adegau ac yn her ar adegau eraill; wedi'r cyfan, roedd diffyg dylanwad gan y pleidiau yn rheswm posibl dros pam bod "effaith cyfranogiad y cyhoedd bron yn sicr yn llawer uwch yma nag mewn unrhyw achos arall … Nid oedd y drafftwyr yng Ngwlad yr Iâ yn rhwym i ddilyn unrhyw agenda na rhaglen ar gyfer newid y cyfansoddiad ar wahân i'r mandad a roddwyd iddynt yn unigol gan y pleidleiswyr".[73]

---

65 ICCFW final report, t.38.
66 International IDEA (2021), t.20.
67 Ibid., t.21.
68 Eisenstadt & Maboudi (2019), t.2136.
69 Ibid., t.2156.
70 International IDEA (2021), t.7.
71 Saati, A. (2017). 'Constitution-Building Bodies and the Sequencing of Public Participation: A Comparison of Seven Empirical Cases'. *Journal of Politics and Law*, 10(3), tt.15-16.
72 Participedia. *Cynulliad Cyfansoddiadol Gwlad yr Iâ 2011.* www.participedia.net/case/131
73 Hudson (2018), t.207.

Mae angen cynllunio a chydlynu cyfranogiad y cyhoedd a phleidiau. Mae De Affrica a Tiwnisia yn enghreifftiau, gyda'r cyntaf yn sefydlu "llwyfan wedi'i negodi, y cytunwyd arno gan elîtiaid gwleidyddol o blith sbectrwm eang o bleidiau gwleidyddol, a ragflaenodd y cam cyfranogiad cyhoeddus ac roedd gan yr olaf drefniant tebyg … proses llunio cyfansoddiad deublyg gyda'r cam cyntaf wedi'i gyfyngu i drafodaethau elîtiaid gwleidyddol"[74].

Mae hefyd yn hanfodol "sicrhau ymrwymiad gwleidyddol gan y pleidiau o ran hygrededd y broses a pharchu'r canlyniad".[75] Er y gall ychydig iawn o gyfranogiad gan bleidiau ennyn cyfranogiad y cyhoedd yn gynnar yn y broses, gall yr un amgylchiadau leihau'r siawns y bydd cyfansoddiad yn cael ei weithredu'n llwyddiannus yn ddiweddarach. Ar adeg pan oedd cyfansoddiad Gwlad yr Iâ mewn "math o limbo",[76] dadleuwyd[77]

> *bod y math o broses ddrafftio sy'n caniatáu effaith fawr drwy gyfrwng cyfranogiad y cyhoedd hefyd yn lleihau'r tebygolrwydd y gall y drafft oroesi drwy'r broses gymeradwyo yn y cynulliad deddfwriaethol rheolaidd, gan nad oes gan yr un o'r pleidiau fawr o fuddiant mewn cymeradwyo'r ddogfen.*

Yn achos Iwerddon, i'r gwrthwyneb,

> *Roedd gan Gonfensiwn [2013] fantais o gael gwleidyddion ymhlith rhengoedd yr aelodau … roedd hyn yn lleihau'r risg o 'ddatgysylltu' rhwng y Confensiwn a'r dosbarth gwleidyddol – problem a oedd yn amlwg yn achosion cynulliadau dinasyddion Canada a'r Iseldiroedd … Yno, fe wnaeth y dosbarth gwleidyddol gadw'n glir yn fwriadol oddi wrth waith y dinasyddion, gan ei gwneud yn anodd i'r cynulliadau hyn ennill llawer o bryniant gwleidyddol.*[78]

Mae mwy o dueddiad i gyfranogi mewn cyd-destunau gwleidyddol pan fydd y pleidiau'n gymharol wan.[79] Yn y cyd-destun hwn, gellir diffinio 'cryfder' a 'gwendidau' ar sail "p'un a yw'r blaid wleidyddol yn mynd i'r afael â'r broses o lunio cyfansoddiad gyda gweledigaeth glir o'r hyn y dylai'r cyfansoddiad ei gyflawni".[80] Mae enghreifftiau i'w cael isod:[81]

- **Pleidiau cryf/cyfranogiad gwan**
  - — De Affrica
    - Buddsoddwyd cryn dipyn o amser ac arian i hwyluso cyfranogiad y cyhoedd
    - Lluniwyd y testun yn y pen draw drwy gyfaddawdau rhwng dwy blaid gryf
  - — Chile; Gwlad yr Iâ
    - Prosesau cyfranogol iawn
    - Methodd pan wnaeth y pleidiau cryf fynnu cydnabyddiaeth

---

74 Saati (2017), tt.21-22.
75 [Un o gyfranogwyr trafodaeth yr IDAG].
76 Hudson (2018), t.205.
77 Ibid., t.207.
78 Suiter, J., Farrell, D. & Harris, C. (2016). 'The Irish Constitutional Convention: A Case of 'High Legitimacy'?'. In: Reuchamps, M., Suiter, J. (eds.). *Constitutional Deliberative Democracy in Europe*, t.46.
79 Hudson (2021).
80 Ibid., t.505.
81 Ibid.

- **Pleidiau gwan/cyfranogiad cryf**
  - — Brasil
    - Lefel uchel o ymgysylltu â'r cyhoedd
    - Roedd pleidiau gwan yn golygu y gallai cymdeithas sifil lunio'r testun cyfansoddiadol
  - — Tiwnisia
    - Cafodd mewnbwn y bobl ddylanwad mawr ar destun y cyfansoddiad
    - Methodd y pleidiau ag atgyfnerthu eu safle
  - — Ecwador
    - Rhoddai'r pleidiau gwan flaenoriaeth i gyfranogiad y cyhoedd
    - Creodd y cyfansoddiad amrywiaeth o ddulliau o rymuso dinasyddion

Mae'r drafodaeth hon yn ffurfio sail i un o'r argymhellion pwysig; bod cyfranogiad y pleidiau yn gallu ategu cyfranogiad y cyhoedd, ac y dylai fod yn gwneud hynny, yn hytrach na gwrthdaro yn ei erbyn. Heb ddilyniant a chydlyniad effeithiol, gall y mewnbynnau hyn weithio yn erbyn ei gilydd.

# 5. Effaith ar ddinasyddion

Gall effaith prosesau cyfansoddiadol cyfranogol ar ddinasyddion fynd y tu hwnt i'r profiad ei hun. Er enghraifft, "mae'r dystiolaeth Wyddelig yn awgrymu bod cynulliadau dinasyddion yn cael effeithiau cadarnhaol nid yn unig ar y rheini sy'n cymryd rhan yn uniongyrchol, ond hefyd ar drafodaethau ehangach – gan gynnwys ar ddadleuon yn ystod ymgyrchoedd y refferendwm".[82] Gan aros gyda'r enghraifft Wyddelig, canfu cyfweliadau ag aelodau Cynulliad Dinasyddion 2016-18 fod

> *y lefelau boddhad yn dal i fod yn uchel ar draws y pum penwythnos (fel yr oeddent ar draws yr un ar ddeg penwythnos o drafodaethau): teimlai'r rhan fwyaf o'r aelodau eu bod yn rhydd i fynegi eu barn, eu bod wedi cael digon o gyfleoedd i siarad, a bod aelodau eraill yn parchu'r hyn yr oedd ganddynt i'w ddweud. At ei gilydd, cafwyd hefyd ychydig o achosion lle'r oedd aelodau eraill yn rheoli'r trafodaethau, er bod hwn yn un maes lle'r oeddem ni'r aelodau ychydig yn fwy amhendant. Yn y cyfweliadau … yn ystod yr wythnosau olaf datgelwyd hefyd lefelau uchel o foddhad â'r broses.*[83]

Y tu hwnt i gwmpas y broses, "eglurodd dau aelod [o Gonfensiwn Cyfansoddiadol cyntaf Iwerddon yn 2013] eu bod wedi newid eu barn yn llwyr ar faterion o ganlyniad … Pwysleisiodd un ohonynt hefyd na fyddai byth wedi cytuno i siarad o flaen grŵp mor fawr oni bai am ei brofiad ef o wneud hynny yn y Confensiwn".[84]

Gall cyfranogiad y cyhoedd beri risg i ansawdd democratiaeth (a gall hynny wedyn effeithio ar y cyhoedd yn eu tro). Mae enghreifftiau'n cynnwys y risg o "ffyrnigo'r gwrthdaro rhwng dinasyddion ynghylch adnoddau, hunaniaeth, neu raniadau cymdeithasol eraill, a fyddai yn y pen draw yn atal cyfansoddiad rhag datblygu, neu'n llesteirio ei weithrediad ar ôl iddo gael ei fabwysiadu, drwy'r effaith ganolraddol ar ddinasyddion".[85]

I'r gwrthwyneb, gall proses gyfranogol ystyrlon gael effaith gadarnhaol ar ddinasyddion yn y ffyrdd canlynol:[86]

- Hyrwyddo dealltwriaeth ac ymddiriedaeth ymysg cymunedau
- Ysgogi trefniadau, hawliau a/neu warantau sefydliadol newydd
- Cydnabod a grymuso pobl yr arferent fod ar gyrion cymdeithas
- Hyrwyddo cymodi a llunio gweledigaeth, hunaniaeth a gwerthoedd craidd cyffredin

82 Kaufman, H. (2018). "Citizens' Assemblies: How can the UK learn from Ireland?". *The Constitution Unit Blog*.
83 Farrell, D., Suiter, J. & Harris, C. (2019). ''Systematizing' constitutional deliberation: the 2016-18 citizens' assembly in Ireland'. Irish Political Studies, 34(1), t.118.
84 Suiter et al. (2016), p.47. Yn gydnaws â'r 'gadwyn achosol hir' a drafodwyd yn flaenorol, mae'r data ar yr effaith ar y cyhoedd a'u hamgyffredion o'r broses yn tueddu i ddeillio o'r cyfnod pan mae'r broses yn dal i fynd rhagddi neu'n syth ar ôl hynny, yn hytrach na'i fod yn rhoi ffocws hydredol. Felly, mae'n anodd pennu'r effeithiau tymor hwy ar ddealltwriaeth ac amgyffredion o ddemocratiaeth a chyfranogiad.
85 Elkins, Z., Ginsburg, T. & Blount, J. (2008). 'The Citizen As Founder: Public Participation In Constitutional Approval'. *81 Temple Law Review 361*, t.370.
86 Gluck, J. & Brandt, M. (2015). *Participatory and Inclusive Constitution Making: Giving Voice To The Demands Of Citizens In The Wake Of The Arab Spring*, t.12.

Gan ystyried achos De Affrica,[87]

> *fe wnaeth fforymau cyfansoddiadol cyhoeddus … alluogi pobl dduon o Dde Affrica i glywed gan eu cyd-drigolion gwyn am eu syniadau am wladwriaeth i'r dyfodol a oedd yn cydnabod realiti'r mwyafrif du ac yn galluogi ar yr un pryd i'r bobl wyn glywed yn uniongyrchol gan y bobl dduon am eu syniadau am wlad a oedd yn cynnwys rôl deg a chyfartal i'r lleiafrif gwyn.*

Wrth drafod pam "mae arweinwyr ar draws y byd – o Dde Affrica, Gwlad Thai, ac Uganda i Papua Guinea Newydd, Brasil a Kenya – wedi dewis buddsoddi amser ac adnoddau sylweddol i roi prosesau llunio cyfansoddiad cynhwysol a chyfranogol ar waith, mae'r manteision penodol i ddinasyddion yn cynnwys cryfhau a hyrwyddo ymdeimlad cyffredin o berthyn, undod cenedlaethol a hunaniaeth, yn ogystal â chydnabod ac ymgorffori dyheadau dinasyddion sydd wedi cael eu gwthio i'r cyrion yn y gorffennol".[88]

Mae'r broses hefyd yn esgor ar fanteision addysgol "i faterion sydd o bwys i'r cyhoedd, gan gyflymu'r broses o gaffael gwybodaeth wleidyddol ac arfogi dinasyddion i werthuso eu llywodraeth yn fwy beirniadol", yn ogystal â hyrwyddo gwerthoedd democrataidd mewn dinasyddion a'u haddysgu yng ngweithrediadau prosesau democrataidd [a] chynnwys y cyfansoddiad.[89] Fel yr effaith yn ehangach, gellir ystyried addysg a'i manteision yn broses ddwyffordd, felly mae'n bwysig "cynnwys addysg ddinesig ar y broses diwygio cyfansoddiadol ei hun ac ar faterion cyfansoddiadol a gwleidyddol pwysig, ond hefyd ddefnyddio arbenigedd aelodau'r cyhoedd; mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, sefydliadau cymdeithas sifil ac arbenigwyr mewn pynciau perthnasol".[90]

87 Ibid.
88 Ibid., t.6.
89 Elkins et al. (2008), t.370.
90 International IDEA (2021), t.20.

# 6. Argymhellion ar gyfer cynnwys dinasyddion mewn datganiad o werthoedd ac egwyddorion cyfansoddiadol

Mae'n hanfodol ystyried **(1) a ellir, (2) sut, (3) pryd, a (4) gyda pha ddulliau y gellir, neu y dylid, cynnwys cyfranogiad y cyhoedd mewn prosesau cyfansoddiadol**. Mae hefyd yn bwysig ystyried pwy, neu ba grŵp(iau), ddylai fod yn gyfrifol am gynllunio, monitro a gwerthuso'r broses hon (a chyfranogiad y cyhoedd ynddi). Dylid sefydlu'r atebion i'r cwestiynau hyn yn gyfannol, er mwyn annog consensws eang, a chefnogaeth, ar gyfer y rhesymeg, y dulliau a'r adolygu.

Mae Cymru yn genedl is-wladwriaethol, mewn gwladwriaeth nad oes ganddi gyfansoddiad wedi'i godeiddio. Mae'r rhan fwyaf o'r enghreifftiau a drafodir uchod yn ymwneud â gwladwriaethau sofran, gan gyflwyno cyd-destun gwleidyddol gwahanol ar gyfer trafodaethau cyfansoddiadol. Daw Adroddiad Terfynol ICCFW i'r casgliad bod y cyd-destun hwn yn golygu "nid oes diffiniad clir o'r mecanwaith ar gyfer diwygio cyfansoddiad anysgrifenedig ond mae hynny'n golygu ei fod yn fwy hyblyg".[91] Yn yr amgylchedd cyfansoddiadol hwn, lle ceir cefnogaeth eang i newid cyfansoddiadol, gall datganiad o egwyddorion helpu i gynnal strwythur a chydlyniaeth, yn ogystal â hyblygrwydd (fel gyda'r dull cydgynghorol cyfranogol a drafodir yn Adran 3).

1. **Ystyried a ddylid cynnwys cyfranogiad y cyhoedd mewn prosesau cyfansoddiadol, nid dim ond ystyried sut**. Mae arwyddocâd achosol cyfranogiad y cyhoedd i broses effeithiol o lunio cyfansoddiadau yn dal i fod yn ddadleuol iawn. Er bod cyfranogiad, heb os, wedi dod yn elfen bwysig a chyffredin o brosesau cyfansoddiadol – tuedd sy'n debygol o gynyddu dros amser – dylid bob amser ei defnyddio gyda bwriad pendant. Heb y bwriad hwn, efallai na fydd cyfranogiad y cyhoedd yn gwella na hyd yn oed yn newid cyfansoddiad.
2. **Cyfuno cyfranogiad gyda chynhwysiant a chydgynghori**. Mae'r ystod o fuddiannau a ddelir (cynhwysiant) yr un mor bwysig â'r nifer a gynhwysir (cyfranogiad). At hynny, mae ansawdd y rhyngweithio (cydgynghori) yr un mor bwysig â'r nifer. Gall cyfranogi a chydgynghori lywio gwahanol gamau o'r broses, ac nid oes angen iddynt gydymffurfio â'r model 'awrwydr' traddodiadol; er enghraifft, cam gosod agenda agored a chyfranogol, wedi'i ddilyn gan broses cynhyrchu opsiynau gydgynghorol ar raddfa lai, gwneud penderfyniadau drwy ddull cyfranogol, a gweithredu a chraffu cydgynghorol.

91 Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru (2024), t.103

3. **Cydlynu mewnbwn y cyhoedd a chefnogaeth y pleidiau**. Mae'r pleidiau yn ystyriaeth bwysig o ran eu cefnogaeth, a'r bargeinio rhwng elîtiaid gwleidyddol. Gall lefelau mewnbwn isel gan bleidiau ennyn cyfranogiad y cyhoedd yn gynnar yn y broses, ond gall lesteirio proses gyfansoddiadol yn y pen draw. Mae cynulliadau a chonfensiynau olynol yn Iwerddon yn dangos pa mor ddefnyddiol yw cynnwys pleidiau fel aelodau, er mwyn osgoi datgysylltiad rhwng y dinasyddion a'r 'dosbarth gwleidyddol'.

4. **Ystyried effaith y broses ar ddinasyddion, nid dim ond effaith dinasyddion ar y broses**. Gall dinasyddion gael effaith fawr iawn ar broses gyfansoddiadol, ond mae llunio cyfansoddiad cyfranogol yn ddeinameg ddwyffordd. Gall proses gyfansoddiadol gyfranogol effeithio ar ddinasyddion mewn ffyrdd cadarnhaol a negyddol. Yn achos yr olaf, gall waethygu rhaniadau mewn cymdeithas ac atal proses llunio cyfansoddiad effeithiol. Yn achos y cyntaf, gall y manteision gynnwys mwy o ymddiriedaeth, cydnabyddiaeth a gweledigaeth gyffredin. Mae'r manteision hyn yn berthnasol (ac yn fuddiol) i'r broses ei hun, ond gallant fynd y tu hwnt i hynny.

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54047, ISBN digidol 978-1-83745-167-8
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg